Image not found or type unknown



# Noddi Gwobrau 2025

## Cefnogwch y proffesiwn gofal yng Nghymru drwy noddi Gwobrau 2025

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 November 2023

Diweddariad olaf: 17 October 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/y-gwobrau/noddi-gwobrau-2025 am y fersiwn diweddaraf.

Cefnogwch y proffesiwn gofal yng Nghymru drwy noddi Gwobrau 2025

Dyma 20fed flwyddyn y gwobrau blynyddol sy’n cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu’r gwaith arbennig sy’n cael ei wneud ym maes gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol a gofal plant, chwarae a’r blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Mae’r Gwobrau yn gyfle i’ch sefydliad ddangos eich cefnogaeth i weithwyr sy’n gwneud cymaint i gefnogi eraill yn ein cymunedau.

Trwy noddi’r Gwobrau, gallwch:

- helpu’n uniongyrchol i godi safonau gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru

- cael eich cysylltu â rhagoriaeth a chyflawniad.

Byddwn ni hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i gefnogaeth eich sefydliad i’r Gwobrau i fwy na 100,000 o weithwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. A hyn i gyd am fuddsoddiad cymharol fach.

## Pam noddi Gwobrau 2025?

Mae noddi Gwobrau 2025 yn gost-effeithiol, ac mae yna fuddion amlwg. Mae sawl rheswm pam mae noddi'r gwobrau’n gwneud synnwyr busnes da:

- **mae ganddyn nhw broffil uchel**

Mae'r sector gofal yn cydnabod y Gwobrau fel uchafbwynt llwyddiant y rhai sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant yng Nghymru.

Mae hyn yn golygu bod y Gwobrau'n uchel iawn eu parch ymysg y gweithlu o 100,000 o bobl (er cymhariaeth, mae hyn yn fwy na holl weithlu’r GIG yng Nghymru).

Fel arfer, mae nifer o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yn bresennol yn y seremoni wobrwyo, fel:

- y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
- uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
- cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol
- cynghorwyr lleol â chyfrifoldeb am ofal cymdeithasol
- penaethiaid sefydliadau gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar cenedlaethol
- rheolwyr sefydliadau gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar.

- **maen nhw’n sefyll am ragoriaeth a chyflawniad**

Nod y Gwobrau yw cydnabod timau a gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar gorau oll yng Nghymru.

Mae'r safon yn uchel iawn, sy'n gwneud y Gwobrau yn opsiwn gwych i sefydliadau sy'n dymuno cael eu cysylltu â rhagoriaeth a chyflawniad.

- **maen nhw'n uniongyrchol gysylltiedig â sicrhau safonau gofal a chymorth uchel yng Nghymru**

Bydd eich nawdd yn helpu i ysgogi'r rhai sy'n cymryd rhan i gadw safonau'n uchel a rhannu ymarfer nodweddol gyda'u cydweithwyr.

- **maen nhw’n fuddsoddiad cost-effeithiol**

Yn fwy nag erioed, mae angen prisio’r pecynnau nawdd yn rhesymol i wneud synnwyr busnes i unrhyw sefydliad. Dyna pam mae’r gost o fod yn rhan o’r Gwobrau yn costio cyn lleied â £3,000.

## Pecynnau nawdd

Mae dwy ffordd y gallwch chi gefnogi Gwobrau 2025:

- fel y prif noddwr
- drwy noddi gwobr.

## Prif noddwr

**Fel y prif noddwr, byddwch chi’n cael:**

- eich enw a’ch logo ar yr holl ddeunydd cyfathrebu am y Gwobrau 2025
- eich enw a’ch logo ar ein tudalennau gwe yn hyrwyddo’r Gwobrau
- hyperddolen i’ch gwefan o dudalennau gwe’r Gwobrau
- marchnata ar-lein, drwy e-bost ac ar gyfryngau cymdeithasol rhwng nawr a’r seremoni wobrwyo
- logo prif noddwr y Gwobrau wedi’i gynllunio’n arbennig i chi ei ddefnyddio ar eich deunydd swyddfa a marchnata hyd at 1 Rhagfyr 2025
- eich crybwyll ym mhob datganiad newyddion am y Gwobrau 2025

- bwrdd i wyth mewn safle heb ei ail yn y seremoni wobrwyo prynhawn ar ddydd Iau, 1 Mai 2025 yng Ngwesty Mercure Holland House yng Nghaerdydd
- eich enw a’ch logo yn cael eu harddangos yng nghanol y llwyfan yn y seremoni wobrwyo
- eich enw a’ch logo ar y cyflwyniad sleidiau yn ystod y seremoni wobrwyo
- cydnabyddiaeth o'ch cefnogaeth mewn areithiau gan ein Cadeirydd a'r prif gyflwynydd
- cyfle i siarad am hyd at bum munud ar ddechrau'r seremoni wobrwyo
- cyfle i gael stondin arddangos yn y seremoni wobrwyo
- eich enw ar dystysgrifau pawb sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol
- eich enw a’ch logo yn rhaglen y seremoni wobrwyo
- hysbyseb tudalen lawn yn rhaglen y seremoni wobrwyo
- crybwyll eich enw yn ein heitemau e-fwletin am y Gwobrau, sy'n cyrraedd mwy na 60,000 o bobl.

## Noddi gwobr

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn noddi un o'r gwobrau, mae chwe categori i ddewis ohonyn nhw. Mae pedwar ar gyfer timau a sefydliadau, a dau ar gyfer gweithwyr.

**Trwy noddi un o’r categorïau, byddwch chi’n cael:**

- nawdd egsgliwsif i'r categori gwobrau o’ch dewis
- eich enw ym mhob math o ddeunydd cyfathrebu am eich categori
- eich enw a'ch logo ochr yn ochr â'ch categori dewisol ar ein tudalennau gwe yn hyrwyddo Gwobrau 2025
- eich crybwyll ym mhob datganiad newyddion am y Gwobrau 2025

- pum lle am ddim ar fwrdd mewn safle heb ei hail yn y seremoni wobrwyo prynhawn ar ddydd Iau, 1 Mai 2025 yng Ngwesty Mercure Holland House yng Nghaerdydd
- eich enw a’ch logo wrth ymyl eich categori noddedig yn rhaglen y seremoni wobrwyo
- eich enw a’ch logo ar brif arddangosfa’r llwyfan yn y seremoni wobrwyo
- cyfle i gyflwyno’ch gwobr i'r prosiect neu weithiwr buddugol
- ffotograffau gydag’ch enillydd gwobr.

## Cysylltwch â ni i ddod yn noddwr

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn brif noddwr neu noddi categori gwobrwyo, e-bostiwch at Ceri Gethin yn gwobrau@gofalcymdeithasol.cymru